RHYS, MORGAN (1716 - 1779), athro cylchynol ac emynydd

Enw: Morgan Rhys
Dyddiad geni: 1716
Dyddiad marw: 1779
Rhiant: Anne Lewis
Rhiant: Rhys Lewis
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: athro cylchynol ac emynydd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg; Barddoniaeth
Awdur: Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 1 Ebrill 1716, yn yr Efail-fach, Cil-y-cwm, Sir Gaerfyrddin, mab Rhys ac Anne Lewis. Ychydig a wyddys am fore'i fywyd. Gweithredodd fel athro cylchynol mewn amryw fannau yn siroedd Caerfyrddin a Cheredigion rhwng 1757 a 1775, a cheir cyfeiriadau at ei ddiwydrwydd fel athro yn *Welch Piety*. Gelwid ef 'a Methodistical Teacher ' gan gyfoeswr yn 1770, a phraw ei ewyllys olaf mai'r seiat Fethodistaidd oedd ei gartref ysbrydol. Trigai yng Nghwm Gwaun Hendy, Llanfynydd, yn niwedd ei oes, a chladdwyd ef ym mynwent Llanfynydd ar 9 Awst 1779.

Cyhoeddodd ei gasgliad cyntaf o emynau, *Golwg o Ben Nebo, ar Wlâd yr Addewid*, o wasg Ffarley, Bryste, yn 1755, a dilynwyd hwnnw gan *Casgliad o Hymau [sic]* (Caerfyrddin, 1757), a *Casgliad o Hymnau etc.* (R. Thomas, Caerfyrddin, 1760); *Golwg o Ben Nebo* (ail arg., Thomas, Caerfyrddin, 1764); *Golwg ar Ddull y Byd, etc.*, 1767; *Golwg ar Ddinas Noddfa* (sy'n cynnwys marwnad i Ester Siôn, Llansawel), 1770; *Griddfanau'r Credadyn*, 1772; *Griddfanau Credadyn* (llyfr gwahanol), c. 1774; *Y Frwydr Ysprydol* (mewn undeb â Thomas Dafydd), c. 1772-4; a *Golwg o Ben Nebo* (3ydd arg., Ross, Caerfyrddin, 1775). Cyhoeddodd nifer o farwnadau hefyd, sef *Marw-Nad: ... Lewis Lewis ... Llanddeiniol* (sy'n cynnwys rhai emynau), 1764; *Marwnad ... rhai o Weinidogion ffyddlon yr Efengyl* Howell Davies, William Richard, a Siôn Parry), 1770; a *Hanes Byr o Fywyd ... Morgan Nathan, yn Llandilo-fawr* (sy'n cynnwys emynau gan Morgan Rhys a M. Nathan), 1775. Nodweddir emynau Morgan Rhys gan brofiad ysbrydol dwfn, a dyry le amlwg i berson Crist bob amser. Ceir enghreifftiau o'i waith ym mhob casgliad o emynau Cymraeg.

Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

Ffynonellau

'Emynyddiaeth: X. Morgan Rhys a Dafydd Morris,' *Y Traethodydd*, 1872, 57-70

Yr Adolygydd, 1851, 330

Y Drysorfa, 1931, 241

Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd, xvii, 12; xxxiii, 78

Y Cofiadur, 1934 34

H. Elvet Lewis, *Gwaith Morgan Rhys. Rhan 1 Golwg o ben Nebo (yn ol argraffiad 1775)* (Caerdydd 1910), 3-20

J. Thickens, *Emynau a'u Hawduriaid* (1945), 144

Gomer M. Roberts, *Morgan Rhys, Llanfynydd* (Caernarfon 1951)

Darllen Pellach

J. Morgan Jones a W. Morgan, *Y Tadau Methodistaidd* (1895-1897), ii, 157-162

Erthygl Wicipedia: Morgan Rhys

Gweithiau

Morgan Rhys, *Golwg o Ben Nebo, ar wlad yr addewid* (Caerfyrddin 1808)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 6486720

Wikidata: Q6911824

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu